# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 06 Mawrth 2007 i'w hateb ar 20 Mawrth 2007

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**1. Brynle Williams (Gogledd Cymru):** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i sicrhau cynaliadwyedd ffermio mynydd yng Nghymru. OAQ2442(FM)

**2. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ddarpariaeth ar gyfer cleifion sydd ag anhwylderau bwyta yng Nghymru. OAQ2451(FM)

**3. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pa drafodaethau diweddar y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cynnal ynghylch cynyddu faint o dai fforddiadwy sydd ar gael. OAQ2435(FM)

**4. David Melding (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. OAQ2452(FM)

**5. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adfywio hen ardaloedd meysydd glo ledled Cymru. OAQ2439(FM)

**6. Elin Jones (Ceredigion):** Pa drafodaethau diweddar y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cynnal ynghylch ei pholisïau datblygu economaidd yng Ngheredigion. OAQ2437(FM)

**7. Denise Idris Jones (Conwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gwella bywydau pobl yng Nghonwy. OAQ2427(FM)

**8. Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gwella bywydau pobl yn Islwyn. OAQ2428(FM)

**9. Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda Llywodraeth y DU er budd chwaraeon yng Nghymru. OAQ2441(FM)

**10. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am

ddarpariaeth gwasanaethau addysg anghenion addysgol arbennig yn Nwyrain De Cymru. OAQ2440(FM)

**11. Leanne Wood (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau diweddar y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cynnal ynghylch ei pholisïau ar gyfer trafnidiaeth. OAQ2434(FM) **TYNNWYD YN ÔL**

**12. Mike German (Dwyrain De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal ynghylch gwerthu gynnau BB mewn siopau yng Nghymru. OAQ2444(FM)

**13. Karen Sinclair (De Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei wneud i hyrwyddo twristiaeth yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. OAQ2438(FM) **Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig**

**14. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau deintyddiaeth ar gyfer plant. OAQ2443(FM)

**15. Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Faint o gyllid y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i ddyrannu ar gyfer triniaeth Bracytherapi ar gyfer cleifion canser y brostad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2007/08. OAQ2447(FM)